**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: LF/FM/0733/13

David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5ed Awst 2013

Annwyl David

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'ch llythyr dyddiedig 2 Gorffennaf 2013 ynghylch y trefniadau craffu ar gyfer gorchmynion sy'n cychwyn Deddfau Cynulliad.

Mae'n bwysig bod hyblygrwydd yn y broses o benderfynu pa bryd y mae Deddfau'n dod i rym, ac fel yr ydych yn ei gydnabod, mater gweinyddol i'r Llywodraeth benderfynu arno yw hwn fel arfer.

Mewn rhai amgylchiadau gall cychwyn Deddfau fod yn dechnegol gymhleth, yn enwedig lle mae angen trosi o system gyfredol i un arall. Dyna pam y mae Biliau yn aml iawn yn galluogi gorchmynion cychwyn i wneud darpariaeth sydd (er enghraifft) yn drosiannol neu'n atodol. Mewn achosion o'r fath rhaid i'r ddarpariaeth sy'n drosiannol neu'n atodol fod â chysylltiad â'r cychwyn ei hun, a dylai felly fod yn gul ei chwmpas.

Ond o ystyried eich pryderon rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar gynnwys y gorchmynion cychwyn dros gyfnod yr haf a byddaf yn ysgrifennu atoch eto ar ôl y toriad.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk